| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| DYDDIAD | **22 Mai 2025** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **Cyflwyno –**<br>• **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25, a**<br>• **Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad** |
| AWDUR | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol** |
| GWEITHREDIAD | **Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon** |

---

## 1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

## 2. CYFRIFON 2024/25

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2024/25 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2024/25 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer Harbyrau Gwynedd

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod 11 Medi 2025 o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen cyn 30 Tachwedd 2025.

2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2024/25.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef ;–

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B